# DRAFT MINUTES

| Meeting ID | 2298 |
|---|---|
| Committee | Cyd-bwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a Gwasanaethau Cymdeithasol (Diogelu) |
| Date | 14/07/2021 |
| Attendees | Cynghorwyr Stephen Thomas (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Haydn Trollope (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Derrick Bevan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth L. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Day (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Phil Edwards (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr D. Lyn Elias (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Keith Hayden (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Stewart Healy (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John Hill (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Wayne Hodgins (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Amanda Moore (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John C. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorydd John P. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Greg Paulsen (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Keri Rowson (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tim Sharrem (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Bob Summers (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr David Wilkshire (Aelod Pwyllgor)<br>Mr. Tim Baxter (Co-Optee)<br>Damien McCann (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Tanya Evans (Swyddog)<br>Alyson Hoskins (Swyddog)<br>Lynn Phillips (Swyddog)<br>Alison Rawshaw (Swyddog)<br>Gavin Metheringham (Swyddog)<br>Michelle Jones (Swyddog)<br>Sarah Dixon (Swyddog)<br>Sarah Jones (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog) |

| | |
|---|---|
| | Leeann Turner (Secretary) |
| | Gwasanaethau Democrataidd (Notify) |
| | Pob Cynghorydd (Notify) |
| | Louise Bishop (Notify) |
| | Sean Scannell (Notify) |
| | Richard Crook (Notify) |
| | Rhian Hayden (Notify) |
| | Michelle Morris (Notify) |
| | Steve Berry (Swyddog) |
| | Andrea Jones (Swyddog) |

| Item ID | 4796 |
|---|---|
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| Item ID | 4797 |
|---|---|
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr G. Paulsen, T. Sharrem a D. Wilkshire.<br><br>**<u>Aelod Cyfetholedig</u>**<br>T. Baxter<br><br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>Rheolwr Strategol Gwella Addysg<br>Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant (Diogelu)<br>Rheolwr Gwasanaeth Trawsnewid Addysg a Newid Busnes<br><br>Cyfeiriodd Aelod at ymddeoliad Alan Williams, Aelod Cyfetholedig oherwydd afiechyd. Mynegodd y Cadeirydd ac Aelodau eu gwerthfawrogiad am ei gyfraniad i'r Cyd-bwyllgor Craffu Diogelu a'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a gofynnodd i lythyr gwerthfawrogiad gael ei anfon ato.<br><br>CYTUNWYD ar y llwybr gweithredu hwn. |

| Item ID | 4798 |
|---|---|
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| Item ID | 4801 |
|---|---|
| Item Title | Amser Cyfarfodydd y Dyfodol |
| Summary | CYTUNODD y Pwyllgor y bydd cyfarfodydd y dyfodol yn cychwyn am 10.00 |

| | |
|---|---|
| | a.m.<br><br>Cododd Aelod bryderon bod eitem agenda wedi eu diweddaru  wedi ei hanfon yn hwyr ac yn y dyfodol y dylid rhoi esboniad gyda'r eitem a ddosbarthwyd pan y'i cylchredir ar fyr rybudd i Aelodau fod yn gwybod am y diwygiadau. Esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg fod naratif yr adroddiad yn parhau'r un fath ond cafodd yr Atodiad ei ddiwygio i gynnwys y diweddariad Addysg yng nghyswllt graffiau. |

| Item ID | 4799 |
|---|---|
| Item Title | Cofnodion y Cydbwyllgor Addysg & Dysgu a Gwasanaethau Cymdeithasol (Diogelu) |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y Cydbwyllgor Addysg & Dysgu a Gwasanaethau Cymdeithasol (Diogelu) a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| Item ID | 5042 |
|---|---|
| Item Title | Dalen Weithredu – 26 Ebrill  2021 |
| Summary | Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Cyd-bwyllgor Addysg & Dysgu a Gwasanaethau Cymdeithasol (Diogelu) a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i nodi'r ddalen weithredu. |

| Item ID | 5043 |
|---|---|
| Item Title | Gwybodaeth Perfformiad Diogelu ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg – 1 Ebrill i 31 Mawrth 2021 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant a'r Rheolwr Strategol Gwella Addysg a gyflwynwyd i roi gwybodaeth am ddiogelu a dadansoddiad gan Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ac Addysg rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021.<br><br>**<u>Gwybodaeth Gwasanaethau Cymdeithasol</u>**<br><br>Siaradodd y Rheolwr Tîm Diogelu Gwasanaethau Plant am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Dywedodd Aelod mai'r heddlu yw'r atgyfeiriwr uchaf a chyfeiriodd at baragraff  6.3.2 yr adroddiad yng nghyswllt prosesau a ddatblygwyd rhwng Addysg a'r Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ysgolion a theimlai y gellid o bosibl ymestyn hyn rhwng ysgolion, yr heddlu a'r gymuned. Cyfeiriodd hefyd at baragraff 6.3.4 am y nifer o ddigwyddiadau bwlio a ddynodwyd gan blant a phobl ifanc fel |

| | |
|---|---|
| | problem sydd angen ei monitro'n agos a theimlai y gallai hyn fod yn lledaenu allan i'r gymuned gan achosi mwy o atgyfeiriadau gan yr heddlu.<br><br>Dywedodd Aelod arall fod y ffigurau ar gyfer atgyfeiriadau wedi cynyddu drwy gydol y flwyddyn, a allai fod oherwydd y pandemig, ond bod atgyfeiriadau gan Gwasanaethau Ieuenctid yn gostwng yn sylweddol.<br><br>Atebodd y Rheolwr Tîm Diogelu y byddai'n codi'r pwyntiau uchod gyda'r cydweithwyr priodol.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y bu gostyngiad bach yng nghyfanswm yr atgyfeiriadau gan Gwasanaethau Ieuenctid a theimlai fod hyn oherwydd llai o gyswllt wyneb i wyneb gyda phlant a phobl ifanc.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at dudalen 19 – Ffigur 2.8: mae hyn yn cyfeirio at gynadleddau adolygu ac mae'r canran a gynhaliwyd o fewn yr amserlen yn dangos 100% ar gyfer Ch1 a Ch4, 84.4% ar gyfer Ch2 a 96.2% ar gyfer Ch3. Nid yw'r data a roddir yn achosi consyrn. Gofynnodd yr Aelod i'w frawddeg olaf "nid yw'r data a roddwyd yn achosi consyrn" gael ei hail-eirio. Cytunodd Rheolwr y Tîm Diogelu i newid y geiriad yn y frawddeg hon.<br><br>Yng nghyswllt nifer uchel atgyfeiriadau gan yr heddlu, teimlai Aelod nad oes angen i'r holl atgyfeiriadau gael eu cyfeirio at Gwasanaethau Cymunedol. Dywedodd y Rheolwr Tîm Diogelu fod hynny'n dibynnu ar natur yr atgyfeiriad.<br><br>Cododd Aelod arall bryderon am atgyfeiriadau gan yr heddlu a holodd os oes proses dilyn lan gyda Thîm Diogelwch y Gymuned a'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol gan y teimlai fod peth ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei achosi gan droseddwyr mynych. Cadarnhaodd Rheolwr y Tîm Diogelu fod yr heddlu yn ymweld â throseddwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol mynych i geisio rhoi sicrwydd i gymunedau. Mae Tîm Diogelwch y Gymuned yn rhagweithiol wrth geisio gweithio gyda chymunedau a gweithwyr proffesiynol eraill i ostwng ymddygiad gwrthgymdeithasol. Pe byddai gweithiwr cymdeithasol yn dod i wybod am ymddygiad neilltuol gan blentyn drwy atgyfeiriad gan yr heddlu, yna byddai cymorth yn cael ei roi yn ei le i ostwng yr ymddygiad hwnnw. Teimlai'r Aelod y dylai fod mwy o gydweithredu rhwng asiantaethau gan fod mwy a mwy o deuluoedd angen cymorth.<br><br>Os oes oedolion bregus yn gysylltiedig, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai Gwasanaethau Plant yn cysylltu gyda Gwasanaethau Oedolion ac y byddai Gwasanaethau Oedolion wedyn yn ymweld â'r unigolyn bregus.<br><br>Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at y pwynt blaenorol yng nghyswllt y frawddeg "nid yw'r data a roddwyd yn achosi consyrn" a dywedodd Aelodau am y rhesymeg am y datganiad hwnnw. dywedodd y bu gostyngiad ym mherfformiad chwarter 2 yn ystod misoedd yr haf oherwydd y pandemig. Yng nghyswllt Gwasanaethau Plant ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, |

mae'r ffocws ar y plentyn a'r teulu yn hytrach na'r gymuned ehangach.

Maent yn gweithio'n agos gyda thîm Diogelwch y Gymuned i benderfynu os oes patrwm o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn datblygu. Yng nghyswllt atgyfeiriadau, dywedodd y Cyfarwyddwr fod swyddog o'r heddlu bellach yn rhan o'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) a'u bod yn adrodd i'r heddlu pan nad yw atgyfeiriadau i Gwasanaethau Cymdeithasol yn addas a bod hyn yn helpu i hidlo atgyfeiriadau diangen.

Cyfeiriodd Aelod at bara 7.4 Ffocws Ataliol – mae'r gwaith a wneir gan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn anelu i hyrwyddo dull ataliol at ymarfer drwy ddynodi ac ymyriad cynnar. Gall dull gweithredu rhagweithiol yn hytrach nag ymatebol at gynllunio gwasanaeth hefyd helpu gyda chynllunio adnoddau. Holodd pa ddulliau llwyddiannus sy'n cael eu defnyddio i ostwng y niferoedd gan y teimlai nad oedd ffigurau yn dod i lawr. Yng nghyswllt diogelu, esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol eu bod yn symud yn araf mewn cyfeiriad gwahanol yn fwy tuag at ddiogelu mewn cyd-destun. Ar hyn o bryd mae diogelu yn canolbwyntio ar yr unigolyn a'r teulu ond mae meysydd eraill lle mae plant yn dod yn fregus tu allan i amgylchedd y cartref ac mae diogelu mewn cyd-destun yn edrych ar feysydd eraill tebyg i ysgolion, grwpiau cymheiriaid a'r gymdogaeth lle mae'r unigolyn yn byw. Dywedodd fod llawer o waith yn cael ei wneud ar draws Gwent yng nghyswllt diogelu mewn cyd-destun a'u bod yn ceisio cyflwyno hyn ar draws ardal Gwent i ddechrau edrych ar gymunedau mewn mannau eraill lle gallai plant o bosibl ddod yn fregus tebyg i barc, ac y gall fod angen dechrau mynd i'r afael â'r amgylchedd hwnnw i'w wneud yn fwy diogel ar gyfer y plentyn yn hytrach na thrin y plentyn a'r teulu eu hunain. Mae hyn yn ychydig o'r gwaith a gaiff ei ddatblygu dros y flwyddyn nesaf a byddai'n newid mewn diwylliant ar gyfer ymarferwyr i ystyried amgylcheddau eraill y gall plentyn fod ynddo, a allai o bosibl eu gwneud yn fregus.

Holodd Aelod os oes digon o gapasiti ac adnoddau ar gael ar gyfer symud i ddiogelu mewn cyd-destun. Yng nghyswllt adnoddau, atebodd y Cyfarwyddwr y byddai'n achos o weithio'n agos gyda Chyfarwyddiaethau eraill tebyg i Wasanaethau Cymunedol a'r Gyfarwyddiaeth Adfywio yng nghyswllt parciau ac yn y blaen i sicrhau eu bod yn ystyried sut i wneud parciau'n fwy diogel ar gyfer plant bregus. Byddai gweithio'n agos gyda gwahanol Gyfarwyddiaethau yn sicrhau y caiff diogelu, ac yn arbennig yr elfen diogelu mewn cyd-destun, ei ystyried fel bod yn bwysig ar gyfer yr holl Awdurdod. O safbwynt Gwasanaethau Cymdeithasol, teimlai'r Cyfarwyddwr fod digon o adnoddau ar gael ond ei bod yn bwysig sicrhau bod Cyfarwyddiaethau'n cydweithio'n agos i geisio trin problemau mewn amgylcheddau anniogel o fewn y cymunedau.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid trefnu sesiwn wybodaeth i Aelodau yng nghyswllt y ffordd newydd ymlaen. Fodd bynnag, teimlai Aelod y byddai'n fwy addas i gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu yn y lle cyntaf a chynigiodd y dylid cyflwyno adroddiad yng nghyswllt diogelu mewn cyd-destun i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu yn y dyfodol.

CYTUNWYD ar y llwybr gweithredu hwn.

Atgoffodd Aelod yr Aelodau am wasanaethau Connect Gwent, sy'n wasanaeth am ddim a chyfrinachol i helpu a chefnogi dioddefwyr troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac y byddai'n rhoi'r rhif ffôn ar y sgwrs ar gyfer gwybodaeth Aelodau.

**Gwybodaeth am Addysg**

Holodd Aelod faint o seibr-fwlio sy'n digwydd mewn ysgolion. Dywedodd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant fod bron bob ysgol yn defnyddio system "My Concern" a fod gan yr awdurdod lleol fynediad i ddangosfwrdd i edrych ar yr holl stad ysgolion a dynodi'r rhesymau am ddigwyddiadau fel seibr-fwlio a bwlio hiliol ac yn y blaen a gallai ddynodi unrhyw anawsterau mewn ardaloedd neu ysgolion neilltuol a rhoi'r hyfforddiant a'r gefnogaeth berthnasol i gefnogi'r ysgolion hynny sydd ei angen.

Yng nghyswllt paragraff 6.3.7 Operation Encompass – Ffigur 4.5 digwyddiadau Cam-drin Domestig, cyfeiriodd Aelod at y niferoedd a roddwyd a dywedodd nad oedd y nifer o blant risg uchel, canol ac isel yn rhoi cyfanswm o 185 o blant. Dywedodd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant y byddai'n gwirio'r rhifau hyn Rheolwr Strategol Gwella Addysg ac yn rhoi adroddiad yn ôl i'r Aelod.

Cyfeiriodd Aelod arall at baragraff 6.3.4 digwyddiadau bwlio a gofynnodd pa fath o strategaeth a gafodd ei rhoi yn ei lle i drin y broblem. Dywedodd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant fod gan ysgolion fesurau llym iawn ar waith a bod system My Concerns yn cefnogi ysgolion gan y gellid cofnodi digwyddiadau bwlio ar y system honno i helpu ysgolion i olrhain a dynodi patrwm o ymddygiad mynych. Dywedodd fod ysgolion yn defnyddio dull gweithredu cyfiawnder adferol, gan weithio gyda'r person ifanc a all fod yn arddangos ymddygiad bwlio a hefyd yn gweithio gydag unrhyw ddioddefwyr i geisio adfer y perthnasoedd hynny, ac yn defnyddio mesurau ataliol i sicrhau fod y mathau hynny o ymddygiad yn newid a bod teuluoedd hefyd yn cymryd rhan.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg fod y polisi gwrth-fwlio yn ei le a bod ysgolion wedi ymateb yn dda. Yng nghyswllt y data Addysg, dywedodd fod y cyfnod rhwng Ionawr ac Ebrill wedi bod yn gyfnod anodd i Addysg a sicrhaodd Aelodau y byddir yn cyflwyno'r set data llawn ar gyfer Addysg o 1 Ebrill ymlaen i Aelodau yn y Cyd-bwyllgor Craffu yn nhymor yr hydref i roi'r ystod llawn o ddata a gwybodaeth i Aelodau ar gyfer dibenion craffu.

Yng nghyswllt y Strategaeth Gwrth-fwlio, holodd Aelod os yw holl ysgolion Blaenau Gwent yn mynd drwy'r broses i gael nod ansawdd gwrth-fwlio a faint o ysgolion sydd â'r nod ansawdd ar hyn o bryd. Dywedodd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant nad yw'r holl ysgolion yn mynd am y nod ansawdd penodol hwn. Mae nifer o ysgolion yn mynd am nod ansawdd Parchu Hawliau, sy'n cwmpasu strategaethau gwrth-fwlio ac sydd â'r ethos

| | |
|---|---|
| | o werthfawrogi a pharchu pawb yn yr ysgol. Dywedodd fod llawer o wahanol gynlluniau a systemau ac y byddai'n casglu'r data perthnasol i ganfod yn union pa nod ansawdd y mae ysgolion yn ei geisio. Teimlai'r Aelod y byddai hyn yn rhoi tystiolaeth i rieni a disgyblion fod staff wedi cael hyfforddiant llawn ac yn gwybod am faterion bwlio.<br><br>Teimlai'r Cyfarwyddwr Addysg y byddai hyn yn rhoi darlun o'r ysgolion hynny sy'n edrych am achrediad ar y cynlluniau hyn a gallai hefyd gael eu bwydo'n ôl i'r Pwyllgor Craffu.<br><br>Yng nghyswllt Operation Encompass, gofynnodd y Cadeirydd am wybodaeth am ba fath o atgyfeiriadau sy'n cael eu gwneud. Dywedodd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant y byddai'n casglu'r wybodaeth hon ar gyfer Aelodau.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn y dull gweithredu a'r wybodaeth a roddir yn yr adroddiad; a<br><br>CHYTUNODD YMHELLACH y dylid cyflwyno adroddiad yng nghyswllt diogelu mewn cyd-destun i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu yn y dyfodol. |

| Item ID | 5044 |
|---|---|
| Item Title | Polisi Diogelu Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a'r Rheolwr Diogelu mewn Addysg a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau Craffu i graffu ar Bolisi Diogelu Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol yn dilyn ei adolygiad blynyddol.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Diogelu mewn Addysg am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at baragraff 6.1 yr adroddiad a dywedodd am bwynt bwled 5 – Gofynion hyfforddiant sylfaenol ar gyfer yr holl staff a gwirfoddolwyr – a theimlai y dylai hyn fod yn hyfforddiant estynedig ac nid sylfaenol. Cytunodd y Rheolwr Diogelu mewn Addysg nad oedd y gair sylfaenol yn cyfleu'r lefel o hyfforddiant sy'n gysylltiedig ac eglurodd ei bod yn lefel a gytunwyd y dylai pob aelod mewn lleoliad addysg ei chael. Mae'n lefel gynhwysfawr ac mae'r holl ymarferwyr yn llwyr ymwybodol o'u cyfrifoldebau am ddiogelu a beth sydd angen iddynt wneud os oes consyrn a sut i adrodd y consyrn hwnnw.<br><br>Cefnogodd Aelod arall y farn y dylid newid y gair 'sylfaenol' yng nghyswllt gofynion hyfforddiant.<br><br>CYTUNWYD ar y llwybr gweithredu hwn.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol wrth yr Aelodau eu bod yn edrych ar hyfforddiant corfforaethol h.y. hyfforddiant |

| | |
|---|---|
| | tair haen. Byddai lefel sylfaenol, lefel ganolig a lefel uwch o hyfforddiant. Maent wrthi'n asesu lefel ymgyfraniad staff ac Aelodau a pha lefel o hyfforddiant fyddai ei hangen ac yn gobeithio cyflwyno rhaglen hyfforddiant yn y dyfodol agos.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am amseriad dileu'r atodiad ar gyfer ymateb i Covid o bolisi eleni, esboniodd y Rheolwr Diogelu mewn Addysg y cafodd atodiad ei roi y llynedd i amlinellu sut y byddai diogelu yn gweithredu yn ystod cyfnodau cynnar y pandemig Covid. Mae'n atodiad atodol i'r polisi i lywio ysgolion ar yr hyn sydd angen iddynt wneud i gadw cysylltiad gyda dysgwyr bregus gan fod ysgolion mewn sefyllfa newydd yng nghyswllt cau ysgolion. Gan fod y gweithdrefnau hyn yn adlewyrchu cynnwys y polisi diogelu, teimlid y gellid yn awr ddileu'r atodiad ond pe byddai sefyllfaoedd yn codi yn y dyfodol yng nghyswllt Covid, byddai'r Rheolwr Addysg yn rhoi cyngor amserol ar gyfer trefniadau diogelu.<br><br>Holodd Aelod os oedd yn briodol i benaethiaid ysgol hefyd fod yr Uwch Berson Dynodedig (DSP) gyda chyfrifoldeb am ddiogelu. Dywedodd y Rheolwr Diogelu mewn Addysg fod penaethiaid ysgol yn aml yn DSP ac yn cael eu cefnogi gan ddirprwy a theimlai eu bod mewn lle dai i gydlynu'r trefniadau diogelu yn eu hysgolion. Ychwanegodd fod gan benaethiaid ysgolion Blaenau Gwent berthynas dda gyda'u staff ac wedi creu diwylliant agored ymysg eu grŵp staffio a theimlai nad oedd unrhyw rwystr i deimlo'n gysurus yn siarad gyda phenaethiaid ysgol. Gallai unrhyw un sy'n codi consyrn gael sicrwydd drwy siarad gyda rhywun gyda lefel dda o brofiad diogelu. Y neges a gadarnhawyd drwy hyfforddiant oedd bob amser i hysbysu'r DSP os oedd pryderon.<br><br>Soniodd Aelod am gyfarfod blaenorol gydag Estyn lle mae pennaeth yr ysgol oedd y DSP a'r dirprwy bennaeth yr ail DSP. Awgrymwyd y gallai fod yn addas i ddynodi trydydd person, rhag ofn fod y pennaeth a hefyd y dirprwy hefyd fod ar gael.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef diwygio'r drafft polisi a newid y gair 'sylfaenol' yng nghyswllt hyfforddiant diogelu. |

| Item ID | 5045 |
|---|---|
| Item Title | Deilliannau Hunanarfarniad Diogelu |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Strategol Gwella Addysg a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau'r Cyd-bwyllgor Craffu Diogelu i graffu ar ganfyddiadau prosesau presennol hunanarfarnu a chynllunio busnes a gynhelir o fewn y Gyfarwyddiaeth Addysg ar draws y Cyngor a gyda phartneriaid allweddol.<br><br>Siaradodd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo. |

| | |
|---|---|
| | Teimlai'r Cadeirydd y dylai'r polisi bwysleisio llais y disgybl gan fod disgyblion yn codi pryderon am ddiogelu gydag athrawon drwy'r system hon.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at baragraff 6.1.1 pwynt bwled 3 – Mae gwaith diweddar i ymateb i broblemau diogelwch y gymuned, gwrthderfysgaeth ac ymddygiad eithafol wedi datblygu'n dda, er enghraifft y Bartneriaeth Ysgolion Diogelach a Chynllun Gweithredu Parch a Chydnerthedd, a theimlai fod ymddygiad eithafol i'w weld mewn cymunedau. Rhoddodd enghraifft beiciau modur oddi ar y ffordd yn cael eu gyrru at geir a phobl yn teimlo dan warchae. Awgrymodd y dylai'r Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant godi'r materion hyn yn ei chyfarfodydd gyda chydweithwyr.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd a dywedodd fod hwn yn newid enfawr i ysgolion yn sut maent yn gweithio yn y maes hwn a gofynnodd os oedd y polisïau, gweithedrefnau a hyfforddiant addas ar gyfer ysgolion yn ei le yn barod ar gyfer gweithredu'r Ddeddf. Dywedodd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant fod y tîm Cynhwysiant wedi gweithio'n galed, yn neilltuol gyda Chydlynwyr ADY, felly maent yn deall beth sydd ei angen yng nghyswllt y gofynion ADY newydd, yn arbennig o amgylch y Cynlluniau Datblygu Unigol. Mae'r Cydlynwyr ADY yn gyfrifol am hyfforddi ysgol a chomisiynwyd Ysgol Gyfun Tredegar i gefnogi penaethiaid ac uwch dimau arweinyddiaeth ysgolion yng nghyswllt prosesau ac yn y blaen dros y flwyddyn academaidd nesaf. Mae'r Tîm Cynhwysiant a gweithwyr cymorth ADY i gyd wedi cael hyfforddiant llawn ar ofynion y Ddeddf ac yn medru cefnogi ysgolion Blaenau Gwent. Mae EAS wedi hyfforddi eu holl Gynghorwyr Her a fyddai'n Bartneriaid Gwella Ysgolion o fis Medi a byddent hefyd yn medru cefnogi athrawon ac uwch arweinwyr.<br><br>Yng nghyswllt diwygio ADY, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y cafodd adroddiad ei gyflwyno'n flaenorol i'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu am barodrwydd ADY o safbwynt Blaenau Gwent. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd ymagwedd bragmatig o fis Medi am weithredu ADY a theimlai y byddai'r sector yn croesawu hynny. Yng nghyswllt capasiti o fewn y Gyfarwyddiaeth Addysg, byddai'r Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant yn gweithio'n llawn-amser i'r Cyngor o 1 Medi 2021 a theimlai fod digon o gapasiti o fewn y tîm i ymestyn diwygio ADY. Rhoddodd sicrwydd i Aelodau y bwriedir recriwtio i swydd wag Rheolwr Gwasanaeth Cynhwysiant yn nhymor yr hydref.<br><br>Holodd y Cadeirydd os byddai'n fanteisiol i EAS ychwanegu eitem safonol ar ADY a'r diwygiadau newydd ar agenda cyfarfodydd cyrff llywodraethu. Byddai Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant yn trafod hyn gyda Gwasanaethau Llywodraethwyr.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef derbyn yr adroddiad fel y'i cyflwynwyd. |